Carwyn Jones AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

30 Tachwedd 2009

Annwyl Dafydd

Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2009

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y daeth yn ofynnol torri'r rheol 21 diwrnod, a hynny er mwyn dod â Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2009 i rym yng Nghymru a chaniatáu agor ffenestr Cynllun y Taliad Sengl. Gwnaed y Rheoliadau hyn a gosodwyd hwy gerbron ar 30 Tachwedd 2009 a byddant yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005 (y "prif Reoliadau"). Yn y prif reoliadau, gwneir darpariaeth o ran Cymru ar gyfer gweinyddu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 ac offerynnau cysylltiedig eraill y Gymuned ynglŷn â chymorth uniongyrchol o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r diwygiadau yn pennu'r gofynion lleiaf ar gyfer hawliadau, o ran maint neu werth taliadau, yn ôl pa un a oes gan y ffermwr hawl i gael taliadau arbennig ai peidio, yn cadarnhau'r dyddiad cau ar gyfer Ffurflen y Cais Sengl a'r dyddiad cau pan fo rhaid i'r parseli a ddefnyddir ar gyfer hawlio o dan Gynllun y Taliad Sengl fod ar gael at ddefnydd y ffermwyr, ac yn cadarnhau'r didyniadau ychwanegol a wneir o'r taliadau uniongyrchol sy'n daladwy i ffermwyr.

Ynglŷn ag Archwiliad Iechyd y Polisi Amaethyddol Cyffredin ("PAC"), bu'r Comisiwn Ewropeaidd yn dirymu a/neu'n diwygio Rheoliadau Ewropeaidd mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol. Disgwylid y byddai rhai rheoliadau allweddol wedi eu dirymu a'u hail-wneud tua diwedd Medi/ dechrau Hydref ond yn anffodus cawsom wybod, yn hwyr ym mis Tachwedd, na fyddai'r Rheoliadau Ewropeaidd newydd mewn grym mewn pryd ar gyfer agor ffenestr taliadau'r Cynllun Taliad Sengl. Y gobaith oedd y byddai wedi bod yn bosibl dirymu'r prif Reoliadau a gwneud rheoliadau eraill yn ei lle, er mwyn rhoi effaith i'r Rheoliadau Ewropeaidd newydd. Yn hytrach, bu'n rhaid diwygio'r prif Reoliadau, a hynny ar frys.

Mae'r ffenestr daliadau ar gyfer Cynllun y Taliad Sengl yn agor bob blwyddyn ar 1 Rhagfyr. Cynllun y Taliad Sengl yw'r cynllun Taliadau Uniongyrchol PAC mwyaf yn y DU, ac yn talu cyfanswm o tua €318,000,000 i oddeutu 17,000 o ffermwyr bob blwyddyn. Mae hanes y Cynllun yng Nghymru yn dangos ein bod wedi gwneud dros 90% o'r taliadau cyn diwedd y flwyddyn. Cafwyd cadarnhad gan gyfreithwyr nad oes modd agor y ffenestri taliadau cyn gwneud y diwygiadau priodol i'r prif Reoliadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Oherwydd y cyfuniad o'r oedi hwn yn y Comisiwn Ewropeaidd, a'r angen i sefydlu sail gyfreithiol ddigonol ar gyfer agor ffenestr Cynllun y Taliad Sengl yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2009, daeth yn ofynnol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2009

Am y rhesymau a amlinellir uchod, daeth y Gweinidog dros Faterion Gwledig i'r casgliad nad oedd yn rhesymol ymarferol gwneud y Rheoliadau yn ddwyieithog. Fodd bynnag, bydd cyfieithiad Cymraeg ar gael yn fuan.

Bu'r Rheoliadau hyn yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Paratowyd Memorandwm Esboniadol yn ogystal, sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac y mae wedi ei osod, ar y cyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Janet Ryder, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ac at Stephen George, Clerc i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

Yr eiddoch yn gywir,

Carwyn Jones AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House